# Holiadur Gwastraff ac Ailgylchu

## 1. Ymatebion i'r holiadur


Derbyniwyd 23 o ymatebion i'r holiadur.

### 1.1. Cwestiwn 1: Ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu?

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu (83%, N=19).

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi nodi 'na' (N=3) egluro eu hateb. Nododd 2 eu bod yn byw yn neuaddau'r Brifysgol, ac 1 ddim yn defnyddio'r trefniadau am eu bod yn cael trafferth efo'r casgliadau ailgylchu.

***Graff 1***





### 1.2. Cwestiwn 2: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu? - sef cartgylchu neu bocs glas, y bin bach brown ar gyfer bwyd, y bin mawr brown ar gyfer gwastraff gardd, a'r bin mawr gwyrdd ar gyfer y gwastraff gweddilliol.

Gweler fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu **pob wythnos** (83%, N=19).

Gofynnwyd i'r rhai oedd ddim yn gwneud defnydd llawn o'r trefniadau (N=3) egluro eu hateb. Y rhesymau a roddwyd oedd:

- Byw yn safle Ffriddoedd, Prifysgol Bangor (1)
- Dim ond yn rhoi'r cartgylchu allan pan maent yn llawn (1)
- Colli bin / cartgylchu (1)

***Graff 2***




## 1.3. Cwestiwn 3: Ble ydych chi'n cadw'ch biniau ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?

Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma.

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cadw'r biniau cefn neu ochr y tŷ (N=11).

Dyma oedd y problemau a nodir gan 2 o'r ymatebwyr:

- Dydi'r myfyrwyr ddim yn gwneud - tai / mynedfa / gardd / grisiau anaddas. (1)
- Grisiau yn broblem, dim lle i'w gadael a phasio, felly (cadw'r biniau) ar y stryd. (1)

*Tabl 1*

| | Nifer |
|---|---|
| Cefn / ochr y tŷ | 11 |
| Blaen y tŷ | 5 |
| Nodi problem (gweler 1.3 uchod) | 2 |
| Ar y grisiau | 1 |
| Darn o dir | 1 |
| Safle ger y Neuadd (Prifysgol Bangor) | 1 |
| Dim ateb | 2 |
| **Cyfanswm** | 23 |

### 1.4. Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w wneud ynglŷn â'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu?

Derbyniwyd ymatebion amrywiol i'r cwestiwn yma. Mae'r atebion wedi grwpio mewn i themâu penodol isod.

*Tabl 2*


| Ansicr o ddeunyddiau i'w ailgylchu |
|---|
| Plastigion du |
| Batris |
| Rhai ddim yn siŵr o ganiau / plastig / gwydr |
| Problemau hefo'r cartgylchu / bocs |
| Dŵr yn mynd mewn i'r bocs ailgylchu |
| Gwydnwch y cart |
| Bin bwyd 23ltr ddim yn addas |
| Angen ffrâm newydd i'r cart |
| Angen biniau |
| Angen cart newydd |
| Trio ein gorau ond dyluniad y gardd / eiddo yn rhwystr |
| Pobl ddim yn cadw biniau |
| Rhaid gwneud rhywbeth am y biniau sydd ddim yn cael eu tynnu nôl fewn. Deall nad yw'n bosib casglu o'r cefn heb gael cerbydau newydd. |
| Arall / Amrywiol |
| Angen defnyddio'r ganolfan ar gyfer trefniadau diwedd tymor - llygod mawr yn broblem |
| Sbwriel ar ôl casglu (Llithfaen) |
| Mae pobl sy'n cerdded heibio yn defnyddio'r biniau |

## 2. Ymatebwyr yn ôl oedran

### 2.1 Trosolwg

Mae nifer uwch o ymatebwyr **16-24** (N=11) a **65-84** (N=6) wedi ateb yr holiadur. Y rheswm dros hyn yw bod y grwpiau oedran yma wedi cael ei dargedu drwy Brifysgol Bangor a Chynhadledd Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd.

***Graff 3***




### 2.2 Cwestiwn 1

Er bod y sampl yn fach, roedd y **3** ymatebwyr wnaeth nodi <u>nad</u> oeddent yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu yn perthyn i'r grŵp oedran **16-24**.


### 2.3 Cwestiwn 2

Er bod y sampl yn fach, roedd pob un o'r ymatebwyr **65-84** (N=6) yn nodi eu bod yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu **pob wythnos**.

## 3. Ymatebwyr yn ôl Ardal Llesiant

### 3.1 Trosolwg

Mae nifer uchel o ymatebwyr (N=15) o ardal **Bangor** yn dilyn targedu myfyrwyr drwy'r Brifysgol.




### 3.2 Cwestiwn 1

Er oedd y sampl yn fach, roedd y **3** ymatebwyr wnaeth nodi nad oeddent yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu yn byw ym Mangor.

### 3.3 Cwestiwn 2

Nid oedd patrwm i'w nodi.